# Ein Hadolygiad Cwsmeriaid Blynyddol

2024/25



Monmouthshire Housing
Tai Sir Fynwy

# Beth sydd yn yr adroddiad hwn


3 Croeso gan ein Cadeirydd

4 Ein hystadegau allweddol

5 Ein pedair colofn wedi'u hesbonio

**Ein Lleoedd**

6 Ein Gwasanaeth Atgyweirio

9 Rydym ni wrth ein bodd gydag adborth

11 Adeiladu ar gyfer y dyfodol

12 Ein cymdogaethau

14 Astudiaeth Achos

18 Astudiaeth Achos

21 Astudiaeth Achos

**Ein Ffyniant**

24 Asesiad rheoleiddiol

24 Mynd yn ddigidol

25 Astudiaeth Achos

26 O ble mae'n arian yn dod a lle mae'n cael ei wario

27 Datrys eich cwynion

**Ein Pobl**

28 EDI

29 Troi'r sain i fyny ar lais y cwsmer

30 Cwrdd â'n Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli

32 Codi arian ar gyfer elusennau

32 Eich cadw mewn cysylltiad

33 Bod yn gymdeithasol

**Ein Planed**

35 Beth rydym ni'n ei wneud i wella ein cartrefi a'n hamgylchedd

37 Gwella effeithlonrwydd ynni ein tai

38 Cipolwg ar gyllid Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

38 Ein targedau ailgylchu

39 Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi!



**0345 677 2277**

**customerservices@monmouthshirehousing.co.uk**

**www.monmouthshirehousing.co.uk**

**Monmouthshire Housing Association**
**Nant-Y-Pia House, Mamhilad Technology Park**
**Mamhilad, Monmouthshire, NP4 0JJ**

**facebook.com/Monmouthshire.Housing**


Cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Corfforaethol ar **01495 761104** neu **corporateservices@monmouthshirehousing.co.uk** os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn unrhyw iaith arall, fel PDF, mewn print bras neu Braille neu fel recordiad sain.

# Croeso i MHA

## Croeso i Adolygiad Cwsmeriaid Blynyddol eleni. Dyma lle rydym ni'n myfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf ac yn rhannu rhai o'n cynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Rydym ni'n gwybod bod cost byw wedi parhau i roi pwysau ar gyllidebau tai, felly mae ein gwasanaethau ariannol a lles wedi cael blwyddyn brysur arall, gan gefnogi llawer ohonoch i fanteisio i'r eithaf ar eich incwm.

Yn wir, cafodd eu gwaith caled ei gydnabod trwy ennill gwobr **Y Sefydliad Tai Siartredig am 'Ragoriaeth Gwasanaeth Cwsmer'**, llongyfarchiadau, rydym ni'n hynod falch ohonoch chi.

Mae dros **900 o gwsmeriaid** wedi cofrestru ar gyfer ap tenantiaid MyMHA, ac maen nhw'n mwynhau'r hyblygrwydd a'r rhyddid o reoli eu contract yn eu hamser eu hunain. Os oes gennych chi ddiddordeb cofrestru, ond yn ansicr beth i'w wneud, rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda.

Rydym ni'n gyffrous i rannu ein bod ni yng nghamau cynnar **ail-frandio Tai Sir Fynwy,** a fydd yn golygu newid enw a sicrhau bod ein gwerthoedd a'n datganiad cenhadaeth yn addas ar gyfer y dyfodol. Gobeithio eich bod wedi derbyn eich llythyr ac wedi dweud eich dweud!

Mae gan ein cwsmeriaid brofiad byw o'u cartrefi a'u cymunedau ac mae ganddynt ran fawr i'w chwarae wrth ein helpu i wella gwasanaethau heddiw ac i gyd-greu gwasanaethau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Eleni, rydym ni wedi cymryd cam i adolygu ein **grŵp Llais y Gymuned** ac yn y cyhoeddiad hwn, rydym ni'n eich diweddaru gyda'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Rydym ni'n adnewyddu ein sylw ar gynaliadwyedd ein cartrefi a'n gwasanaethau, fel y nodir yn yr adran 'Planed'. Gallwch hefyd ddarllen mwy am sut rydym ni'n gwneud MHA yn wyrddach yn ein Hadroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) ar ein gwefan.



**Yn olaf, diolch enfawr am eich holl gefnogaeth a'ch adborth, mae hyn yn ein helpu i ddeall beth sy'n gweithio'n dda a lle y gallwn ni barhau i wella.**

Tony Deakin,
**Cadeirydd y Grŵp**

# Ar gipolwg – ein hystadegau allweddol!

**Dyma'r ystadegau sydd fwyaf pwysig i chi, felly rydym ni wedi'u cynnwys ar y dechrau fel y gallwch chi weld sut rydym ni'n perfformio.**

Roedd **96.51%** o gwsmeriaid yn fodlon gydag atgyweiriadau

Cafwyd **397** achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol

Roedd **4,000+** o gartrefi wedi'u perchnogi neu'n cael eu rheoli

Cwblhawyd **97.58%** o atgyweiriadau yn iawn y tro cyntaf

**1.97%** ôl-ddyledion rhent

Cafwyd cyfanswm o **20** o gwynion ffurfiol

Roedd cyfanswm o **54** o gartrefi newydd fforddiadwy

Gwariwyd **£2.39m** ar wella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi

# Ein pedair colofn wedi'u hesbonio

**Eleni mae ein Hadolygiad Cwsmeriaid Blynyddol wedi ei rannu i'r 4 colofn isod, mae hyn yn ein helpu i weld sut rydym ni'n perfformio yn erbyn ein hamcanion yn ein Cynllun Corfforaethol.**

## Ein Lleoedd

Rydym ni wedi ymrwymo i ddarparu cartrefi diogel, fforddiadwy o ansawdd uchel gydag amgylchoedd bywiog, gan gydweithio â phartneriaid i greu cymunedau ffyniannus.

## Ein Ffyniant

Gan fuddsoddi mewn twf, byddwn yn parhau i fod yn fusnes cryf a gwydn yn ariannol, gan hyrwyddo caffael teg a lleol.

## Ein Pobl

Drwy hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant, talent amrywiol a byw'n iach byddwn yn cefnogi pobl i ffynnu a chyflawni eu gwir botensial.

## Ein Planed

Byddwn yn parhau i adeiladu cartrefi cynaliadwy ac ecogyfeillgar, gan hyrwyddo gwytnwch ecolegol a chyfrannu tuag at dargedau carbon sero cenedlaethol.

# Ein Lleoedd

**Rydym ni'n gwybod bod cael gwasanaeth atgyweirio effeithlon a dibynadwy yn bwysig i chi ac mae hefyd yn flaenoriaeth i ni. Rydym ni'n gweithio'n galed i sicrhau bod ein cartrefi yn ddiogel, yn sicr ac yn gyfforddus.**

# Ein Gwasanaeth Atgyweirio

## Buddsoddi a chynnal ein cartrefi

**Yn 2024/25 fe wnaethom wario cyfanswm o £16.619m ar ein rhaglen atgyweirio a chynnal a chadw. Dyma sut y cafodd ei wario:**

**£9.868m**
ar atgyweiriadau wedi'u cynllunio

**£2.429m**
ar atgyweirio i ddod ag eiddo gwag i'r safon ofynnol

**£309k**
ar atgyweiriadau cylchol

**£2.966m**
ar atgyweiriadau ymatebol (cynnal a chadw rheolaidd)

**£1.047m**
ar gydymffurfiaeth iechyd a diogelwch

## Atgyweirio ein cartrefi

Pan fyddwch rhoi gwybod am atgyweiriad i ni, rydym ni'n gweithio'n galed i'w ddatrys yn gyflym ac i safon dda.

**6,038**
o atgyweiriadau brys wedi'u cwblhau

Cwblhawyd **97.58%**
o atgyweiriadau yn iawn y tro cyntaf

**30,073**
o atgyweiriadau wedi'u gwneud

# Sicrhau bod ein cartrefi yn ddiogel ac yn cydymffurfio

Rydym ni eisiau sicrhau eich bod chi'n ddiogel lle rydych chi'n byw. Dyna pam rydym ni'n gwneud popeth y gallwn ni i gydymffurfio â holl ganllawiau a rheoliadau'r Llywodraeth i sicrhau bod ein cartrefi yn bodloni'r safonau gofynnol.

### Pob cartref:

**Ein helpu i'ch cadw chi'n ddiogel**
IMae'n bwysig gadael i'n tîm ddod i mewn i'ch cartref i gwblhau'r gwiriadau diogelwch pwysig hyn!

**99.97%**
o wiriadau diogelwch nwy wedi'u cwblhau mewn tai

**99.77%**
o archwiliadau larwm mwg

**99.98%**
o wiriadau diogelwch trydanol wedi'u cwblhau mewn tai

**99.83%**
o archwiliadau larwm Co2

### Llety / fflatiau ymddeol:

**100%**
o asesiadau risg dŵr legionella

**100%**
o declynnau codi teithwyr

**100%**
o asesiadau risg tân

**100%**
o archwiliadau gwasanaeth lifft grisiau

# Gofalu am ein cartrefi

Fe wnaethom fuddsoddi **£1,001,000** yn uwchraddio a chynnal gatiau, ffensys, llwybrau, meysydd parcio a waliau ffin drwy ein rhaglen allanol.

## Lleithder a Llwydni

**Rydym ni am i bob un o'n cartrefi fod yn rhydd rhag lleithder a llwydni, ac rydym wedi diweddaru ein Polisi Lleithder a Llwydni eleni, i adlewyrchu'r ymrwymiad hwn.**

Am fwy o wybodaeth am leithder a llwydni, ewch i'n gwefan neu sganiwch y cod QR.



Mae Lacey, ein plymer dan brentisiaeth, yn torri stereoteipiau rhywedd

**Rydyn ni WRTH EIN BODD yn derbyn eich adborth ...**

## Dywedodd Mr Day ...

*"Rwy mor ddiolchgar i Marc am drwsio fy moeler ddoe. Roedd Marc yn hynod broffesiynol ac fe wnaeth ddarparu gwasanaeth anhygoel a chyflym."*

---

*"Diolch mawr i'r tîm o grefftwyr wnaeth weithio ar fy ystafell wlyb. Roedd eich gwaith yn wych; roeddech chi bob amser yn glanhau ar eich hôl ac ni allwn fod yn hapusach gyda fy ystafell wlyb."*

---

## Dywedodd Mrs Price ...

*"Ymateb gwych. Rydw i wedi bod yn denant ers blynyddoedd lawer. Dydw i erioed wedi cael ymateb mor gyflym i atgyweiriad. Roedd y gŵr bonheddig yma mewn dim o amser. Wedi trwsio popeth yn berffaith. Diolch yn fawr iawn."*

---

## Dywedodd Mrs Hughes ...

*"Rhaid i mi ddweud, er fy mod wedi gwneud un o'r penderfyniadau mwyaf i symud ar ôl marwolaeth fy niweddar ŵr, mae'r swyddog chwilio am dai hyfryd wedi bod yn wych. Yn ei ffordd broffesiynol a dymunol. Mae hi'n gredyd iddi hi ei hun a hefyd i'ch tîm.*

*Mae wedi bod yn daith anodd ac emosiynol i mi, un y mae hi wedi'i gwneud ychydig yn haws."*

**Gallwch wneud cwyn neu adael canmoliaeth drwy yr adran Cysylltu â Ni ar y wefan.**

# Gwaith yn Fferm Rockfield, Undy yn mynd rhagddo



## Adeiladu ar gyfer y dyfodol

Rydym ni'n gweithio'n agos gyda'n partneriaid i gynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy ledled De Cymru ac rydym ni wedi ymrwymo i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflwyno ei tharged o 20,000 o dai fforddiadwy carbon isel newydd yng Nghymru.

**Ym 2024 mae gennym ni ...**

**27**
o gartrefi fforddiadwy newydd wedi'u hadeiladu

**37**
o gartrefi fforddiadwy yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd

**59**
o gartrefi newydd wedi derbyn caniatâd cynllunio

**4**
o bobl wedi cael cymorth i fynd ar y farchnad eiddo

**27**
o gartrefi wedi'u prynu o'r farchnad agored i gefnogi'r rhai sydd mewn llety dros dro neu'n wynebu digartrefedd

**6**
o gartrefi wedi'u hadeiladu gan ein cwmni adeiladu mewnol Capsel

## Rhai o brif uchafbwyntiau ein datblygiad:

- **Wedi dechrau adeiladu datblygiad tai mwyaf Grŵp MHA hyd yma yn Fferm Rockfield, Undy.** Cyfanswm o 120 o dai, gan gynnwys 32 ar gyfer rhent fforddiadwy.
- **Ymunodd MHA â 23 o landlordiaid cymdeithasol eraill yng Nghymru i greu 'Tai ar y Cyd";** 'llyfr patrymau' arloesol o gynlluniau tai a fydd yn helpu i wneud adeiladu cartrefi yng Nghymru yn fwy ynni-effeithlon a chost-effeithiol.
- **Wedi helpu i roi bywyd i'n Prif Strydoedd.** Eleni, dechreuodd y gwaith o adfywio Tŷ Holman, Cil-y-coed, i drosi'r llawr uchaf yn fflatiau, gan gynnwys mesurau amgylcheddol gwell a gwella rhan allanol yr adeilad..
- **Estyn allan i ardaloedd newydd.** Rydym ni wedi caffael pecynnau bach o dir yn ardaloedd Torfaen a Chasnewydd, fel rhan o'n cynlluniau i ehangu ein ardal gweithredu'n araf, gan helpu i gynyddu'r ddarpariaeth angenrheidiol o gartrefi fforddiadwy yng Ne Cymru.

## Ymroddedig i helpu preswylwyr i fyw'n annibynnol yn eu cartref

**189**

o addasiadau tai wedi'u gwneud

**95.5%**

bodlon / bodlon iawn gyda'r gwasanaeth

**96%**

cyflawni o fewn yr amserlen darged

## Cefnogi preswylwyr newydd yn eu cartref eu hunain

**99.59%**

(targed 96%)

Bodlonrwydd cyffredinol gyda'u cartref newydd

Cyflwynodd y Tîm Cartrefi Newydd 'Gontractau Safonol Cyflwyniadol' i bob tenant newydd ym mis Ionawr 2025; gan helpu preswylwyr i ddod i fyny â phopeth sy'n gysylltiedig â 'thenantiaeth', a sefydlu arferion cadarnhaol o'r cychwyn cyntaf.

## Ein cymdogaethau

**Dyma beth rydym ni wedi bod yn ei wneud ...**

**4**

o ddigwyddiadau 'glân a chlir' wedi'u cynnal

**4**

hysbysfwrdd cymunedol wedi'u codi

**12**

taith gerdded a siarad dros y Sir wedi'u cyflawni

**96%**

boddhad cymdogaeth wedi'i gyflawni

**£1.97 yr wythnos**

o arbedion cyfartalog ar ôl cynnal adolygiad tâl gwasanaeth (Ffigur diwedd blwyddyn isaf MHA am 5 mlynedd

**1%**

o ddyledion tenantiaid blaenorol (mae ein tîm incwm yn gwneud popeth sy'n bosibl i adennill rhent a fethwyd a thaliadau sy'n ymwneud â difrod)

#lovewhereyoulive

## Ymrwymo i Atal Cam-drin Domestig

Mae cael gwared â cham-drin domestig yn flaenoriaeth i ni. **Ni yw'r gymdeithas tai gyntaf yng Nghymru** i gael achrediad Aur gan Domestic Abuse Housing Alliance (DAHA) am ein dull o ymateb i drais domestig.

## Creu mannau diogel i fyw ynddynt

Rydym ni'n gwybod y gall Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol (ASB) gael effaith enfawr ar eich bywyd a dylanwadu ar p'un a ydych chi'n teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn eich cartref.

**Dyma beth mae ein Tîm Diogelwch Cymunedol wedi bod yn ei wneud a sut maen nhw wedi perfformio ...**

**82%**
o gartrefi yn hapus gyda'r ffordd y cafodd eu hachos ASB ei drin

**89%**
o lefelau gwasanaeth cwsmer gwell

**91**
o Atgyfeiriadau cymorth wedi'u gwneud

**37**
o Atgyfeiriadau cynghori a chyfryngu wedi'u gwneud

**84**
o Bobl sy'n byw gyda cham-drin domestig wedi'u cefnogi

**87**
o Dai wedi gwella diogelwch

**172**
o Ymyriadau i gael mynediad i bennu cydymffurfiaeth nwy / trydan

**397**
o achosion Diogelwch Cymunedol wedi eu rheoli

**10**
digwyddiad diogelwch Cymunedol wedi'u cynnal

> *"Mae'r ardystiad yn cydnabod eich ymrwymiad dwfn i wneud tai'n ddiogel, yn gefnogol a chanolbwyntio ar oroeswyr. O ymgorffori llais gofalgar mewn ymweliadau cydymffurfio, i gyfradd llwyddiant o 100% wrth ddiwallu anghenion cartrefi; mae eich gwaith wir yn dangos sut mae fframwaith achrediad DAHA newydd yn cefnogi cynghorau a darparwyr tai."*

Domestic Abuse Housing Alliance

# Astudiaeth Achos

## Rydyn ni wrth ein boddau'n mynd allan ac ymweld â'n cymunedau!

**Mae ein 'Teithiau Cerdded a Siarad' yn parhau i helpu i nodi beth mae ein cwsmeriaid ei angen!**

Yn dilyn adborth uniongyrchol gan gwsmeriaid a dderbyniwyd yn ystod '**Teithiau Cerdded a Sgwrsio**' yn Dan y Deri, trefnodd ein Swyddog Cymdogaeth flodau gwerth £100 o Ganolfan Arddio Y Fenni i gael eu danfon i Gyngor Eco Ysgol Gymraeg y Fenni er mwyn iddynt ddefnyddio eu rhinweddau garddio.

Mae'r Cyngor Eco yn cynnwys dau blentyn o bob dosbarth (blwyddyn 2 ymlaen) ar draws yr ysgol, yn ymroddedig i godi ymwybyddiaeth o pam mae'n bwysig gofalu am ein byd a sut y gallwn ni wneud newidiadau cadarnhaol i wella ein hamgylchedd gyda'n gilydd.

Cafodd aelodau o'r Cyngor Eco ochr yn ochr â'r trigolion a Chynghorwyr lleol y cyfle i ddefnyddio eu sgiliau eco i lanhau planwyr gyda blodau a ddarparwyd diolch i Gronfa 'buddiannau cymunedol' MHA.

Fe wnaeth Pennaeth Ysgol Gymraeg Y Fenni a'r Cyngor Eco'r fwynhau'r bore gymaint nes iddynt gytuno i weithio gyda'r gymuned leol i ofalu am y planwyr a hyd yn oed ymgymryd â mwy o blannu yn y dyfodol.

Roedd y Cynghorydd Angela Sandals, Aelod Cabinet Cyngor Sir Fynwy dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltiad wrth ei bodd cymryd rhan ac fe ddywedodd

> ***"Mae'n wych gweld gwybodaeth a dealltwriaeth y plant am blanhigion a'u bod nhw'n ymfalchïo yn y lle maen nhw'n byw. Yn gyffredinol, bu'n brofiad hyfryd iawn."***

**Dewch i ymuno â ni ar Daith Cerdded a Siarad yn y dyfodol, byddem wrth ein bodd gwybod sut y gallwn ni wella eich cymuned!**



## Tai a lles

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cymorth sy'n ymwneud â thenantiaeth a/neu dai i drigolion ehangach Sir Fynwy sydd angen tai ac mae wedi ei ariannu drwy Gronfa Cymorth Tai Cyngor Sir Fynwy.

Cefnogwyd **87**
o bobl gyda **38%** ohonynt yn denantiaid MHA

Mae **94%**
wedi cyflawni eu canlyniadau dymunol

Mae **94%**
nawr yn gallu rheoli eu tenantiaeth yn llwyddiannus

Cyflawnwyd dros **£100k+**
o fanteisio i'r eithaf ar incwm gan y rheini sydd wedi eu cefnogi gan y gwasanaeth hwn

Rydym ni wedi dod o hyd i grantiau gwerth cyfanswm o **£118,752.48**



***"Roedd fy mywyd ar ben i lawr, roeddwn i'n byw yn fy nghar ac roeddwn i'n ddigartref. Ar ôl i'r adran cymorth roi help ymarferol a chefnogaeth i mi, mae gen i gartref nawr."***

***"Roeddwn i'n llanastr llwyr, dan lawer o straen, llawer iawn o bryder, dyledion a phwysedd gwaed uchel, yn dilyn derbyn cymorth, rwyf mewn lle gwell, yn meddwl yn fwy cadarnhaol. Dydw i bellach ddim mewn dyled, mae wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i fy mywyd."***

## Hyfforddi Tenantiaeth

Mae ein hyfforddwyr yn gweithio gyda chwsmeriaid i roi'r sgiliau, hyder a'r wybodaeth maen nhw eu hangen i reoli eu tenantiaeth yn annibynnol ac i fod yn fwy parod i ymdrin â heriau bywyd yn y dyfodol.

Mae **69**
o denantiaid wedi cael eu cefnogi

Mae **94%**
o atgyfeiriadau wedi bod ar gyfer cyflwr eiddo

Mae **67%**
wedi gwella cyflwr eu heiddo gyda gwaith hanfodol wedi'i gwblhau ar gyfer **20%** o'r rhain

Mae **35**
tenant wedi cael eu cefnogi gyda phryderon lles/llesiant

## Bywyd ar ôl ymddeol

Ein Swyddogion Byw Cymunedol (CLOs) yw'r un pwynt cyswllt i bob un o'n cwsmeriaid yn ein llety ymddeol. Mae'r ddau CLO wedi ymgymryd â'r canlynol

**41**
o Wiriadau Iechyd Tenantiaeth

**21**
o Ymweliadau cartref tenant newydd

**Diolch i'n wyth preswyliwr ym Mlas Mawr a dreuliodd y diwrnod yn helpu i gyfweld a phenodi ein Swyddog Byw Cymunedol newydd. Ers hynny rydym ni wedi croesawu Tracey fel ein CLO newydd!**

## Uwchraddio ein offer larwm

I baratoi ar gyfer y newid digidol yn y DU eleni, fe wnaethom ni gwblhau gwaith uwchraddio mawr ar ein hen offer larwm. Fe wnaeth cwsmeriaid gymryd rhan o'r dechrau, gan sicrhau ein bod ni'n gwrando ar eu hanghenion penodol.

Fel rhan o'r uwchraddio digidol, gosodwyd **100% o Larymau Careline** hefyd mewn 6 o'n cynlluniau.

## Gwella sgiliau digidol

Cawsom grant o £18,500 gan Lywodraeth Cymru i gefnogi eu hymchwil i gynhwysiant digidol o'r enw'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol. Fe wnaeth hyn ein galluogi i gefnogi 40 o gwsmeriaid trwy ddarparu sgiliau a dyfeisiau cynhwysiant digidol.

## Rhoi punnoedd mewn pocedi

Mae ein Gwasanaeth Lles a Llesiant yn cynnig cyngor ar bob agwedd o arian, cyflogaeth ac ynni a chyfleustodau cysylltiedig.

Manteisiwyd i'r eithaf ar **£1.8m+** o incwm cwsmeriaid!

Wedi helpu gyda gwerth **£140k** o ddyledion cwsmeriaid, gan ddileu **£110k** o ddyled

Cafodd **£60k** ei arbed trwy gyllidebu, lleihau biliau a gwella gwydnwch ariannol

Gwnaed **413** o atgyfeiriadau i'n tîm Moneywise

Cafodd **303** o gwsmeriaid eu hatgyfeirio i'n tîm Lles Ariannol

Derbyniodd **122** customers received one to one financial wellbeing coaching

Mae **108** o gwsmeriaid hyfforddiant un-i-un ar les ariannol

Cyflwynwyd **50** o gyrsiau grŵp ledled y Sir gan gynnwys coginio ar gyllideb, garddio a gwydnwch ariannol

Cefnogwyd **31** o gwsmeriaid i gael gwaith

## Oscars Cymru

Enillodd MHA wobr Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer am yr ail flwyddyn yn olynol yng ngwobrau Tai Cymru Y Sefydliad Tai Siartredig. Y derbynwyr balch eleni oedd ein tîm Cynhwysiant Ariannol.

Cysylltwch os ydych chi angen unrhyw gymorth ariannol. Naill ai sganiwch y cod QR neu ewch i'n gwefan.

# Astudiaeth Achos

Community MasterChef

MHA
Monmouthshire Housing
Tai Sir Fynwy

## Coginio gwledd!

**Fe wnaeth 'Community Masterchef' MHA chwalu disgwyliadau gyda chyfres o chwe wythnos wych o gyngor ar fwyd iach a choginio ar gyllideb, gan greu perthnasoedd newydd gyda chogyddion lleol, cyflenwyr a Banciau Bwyd, tra'n creu gwaddol barhaol ehangach oedd yn rhagori ar ein nodau gwreiddiol!**

Wedi'i ariannu gan bot ariannu 'Multiply' Llywodraeth Cymru a gan Bartneriaeth Bwyd Mynwy. Nod y prosiect oedd dangos ffyrdd o fwynhau "hoff fwydydd tecawê" mewn modd iachach ac yn fwy fforddiadwy, tra'n annog bondio teuluol trwy goginio. Angen a nodwyd gan dîm Lles Ariannol MHA.

Mae gwyliau ysgol yn adeg anodd yn ariannol i lawer o deuluoedd. Gyda dros gant o deuluoedd wedi cofrestru, rhoddwyd **£12,220** i gyfranogwyr i brynu cynhwysion. Cwblhaodd cyfanswm o **82** o deuluoedd y cwrs 6 wythnos, gan fwydo cyfanswm o **335** o bobl.

Cafodd pob tŷ daliad wythnosol yn cwmpasu cost cynhwysion. Rhoddwyd ffriwyr aer (27) a phecynnau coginio i deuluoedd hefyd os oedd angen.

Roedd bob wythnos yn cynnwys coginio gwahanol gan gynnwys bwyd Prydeinig, Asiaidd ac Eidalaidd, wedi'i ddatblygu gan y cogydd lleol Pavinee Taruschio. Cafodd ryseitiau eu ricordio ymlaen llaw ac fe'u hategwyd gan lyfr coginio rhithwir a chardiau rhestr siopa, gan eu gwneud nhw'n hawdd i'w dilyn adref.

Roedd y gymuned Facebook benodol yn llawn bywyd gyda'r cyfranogwyr yn awyddus i rannu eu profiadau, lluniau ac adborth!

Yn gyffredinol, fe wnaeth Community Masterchef helpu teuluoedd i goginio prydau blasus ac iachach ar gyllideb ac adeiladu ymdeimlad o ysbryd cymunedol a hwyl trwy heriau wythnosol a gwobrau gwerth **£700**, wedi'u rhoi gan fusnesau lleol.

### Cadw ein cymunedau'n brysur ...

***"Mae'r plant a minnau wir wedi mwynhau cymryd rhan. Rwyf wedi bod ychydig yn ddiog wrth goginio dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae hyn wedi dangos i mi nad yw mor anodd nac yn cymryd cymaint o amser ag yr oeddwn i'n ei feddwl. Hefyd, mae llawer mwy blasus ac yn fwy cost-effeithiol ac yn lleihau gwastraff bwyd yn sylweddol."***

## Cadw ein cymunedau'n brysur!

# COMMUNITY BUZZ

Cynhaliwyd **48** o ddigwyddiadau gan ein tîm Ymgysylltu gan ddenu **1,890** o fynychwyr

Cyflawnwyd **21,132** awr o wirfoddoli cymunedol sy'n cyfateb i **£258,022**

Derbyniwyd **£107,500** trwy gyllid allanol ar gyfer prosiectau a arweinir gan y gymuned

Derbyniwyd **£53,540** o 'fuddiannau cymunedol'

Rhoddwyd **£4,320** i gefnogi ein canolfannau sy'n cael eu harwain gan wirfoddolwyr

Cymerodd **101** o drigolion Sir Fynwy ran yn y 'Cynllun Hyderus o ran Costau Byw' a grëwyd i hyfforddi gweithwyr rheng flaen i nodi a chyfeirio pobl sy'n byw mewn tlodi

Prynwyd **4,461** o fagiau bwyd rhad trwy bantrïoedd hybiau cymunedol – Cas-gwent / Wyesham gan arbed **£71,736** i denantiaid a chymunedau

## Gwaith wedi'i wneud yn dda ...

Enillodd **Laura Cousins** wobr **'Tenant y Flwyddyn'** TPAS Cymru

---

Enillodd y **Tîm Ymgysylltu** wobr **'Hyrwyddwr Cymunedol'** gan Eglwys Gateway

# Helpu i gysylltu ein cymunedau'n ddigidol

**Mewn 12 mis mae ein arbenigwyr TG iConnect wedi cyflawni ...**

iConnect
The digital world at your fingertips

Derbyniwyd **£242,456**
o gyllid gan Ffyniant Bro ar gyfer iConnect

Mynychodd **350**
o bobl sesiynau galw heibio digidol

Cefnogwyd **12**
o hybiau cymunedol a mannau lleol i wella cysylltedd digidol

Cefnogwyd **50**
o ddigwyddiadau a gweithgareddau lleol

Cefnogwyd **21**
o bobl i gael gwaith

Fe wnaeth **284**
o bobl wella sgiliau bywyd

Cefnogwyd **38**
o wirfoddolwyr

Fe wnaeth **412**
o bobl gymryd rhan

Rhannwyd **94**
cerdyn SIM





# Astudiaeth Achos

## Gall gwirfoddoli drawsnewid bywydau

**Mae AL yn wirfoddolwr 'Disability Can Do' sy'n byw gyda hyder isel a chyfyngiadau corfforol sy'n rhwystro ei allu i gymryd rhan yn gymdeithasol. Er gwaethaf y rhwystrau hyn, mae ganddyn nhw angerdd a dawn ym mhob peth sy'n ymwneud â chyfrifiaduron ac yn caru trwsio ffonau yn arbennig. Mewn ymgais i godi eu hyder a chysylltu â phobl tebyg, fe wnaethon nhw gymryd cam dewr a chofrestru ar gyfer ein rhaglen cynhwysiant digidol.**

Cwblhaodd AL sesiwn ymsefydlu gwirfoddoli, a hyfforddiant hyrwyddwr digidol ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl yn llwyddiannus ac fe wnaethant dderbyn gliniadur i gynorthwyo gydag ymchwil a cheisiadau swyddi. Gyda dyheadau i weithio gyda thechnoleg symudol, rhoddwyd cerdyn SIM gwerth £180 y flwyddyn iddynt yn ogystal â phecyn trwsio ffonau symudol, er mwyn helpu i ennill profiad a mynd ati i gyflawni eu breuddwyd gyrfaol yn y pen draw.

Mae'r effaith mae'r hyfforddiant a'r cymorth wedi'i chael ar AL wedi bod yn drawsnewidiol. Mae eu hyder cynyddol wedi eu galluogi i gymryd rhan yn y rhaglen cynhwysiant, ac i ffurfio cyfeillgarwch newydd, sydd wedi bod yn bleser gweld. Mae AL yn hapus i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, yn mynychu ffeiriau swyddi ac yn agored i rannu eu profiadau gyda phobl eraill - rhywbeth y gallent ond freuddwydio amdano o'r blaen!

### Cyngor Sir Fynwy:

***"Beth ydych chi wedi ei wneud! Allai ddim credu'r gwahaniaeth yn AL; maen nhw fel person newydd. Ar un adeg, fydden nhw ddim hyd yn oed yn mynd mewn i ystafell heb gynhyrfu, erbyn hyn maen nhw'n cyfarch pobl yn y Ffair Swyddi gyda chymaint o hyder."***



### Disability can do:

***"Allai ddim credu'r newid yn AL, mae'n hyfryd eu gweld yn dod allan o'u cregyn, diolch am y gefnogaeth rydych chi wedi'i rhoi iddynt."***

**Mae taith AL yn parhau, gyda chefnogaeth gan iConnect, Disability Can Do a thîm Cyflogaeth MCC.**

# Cynigwyr Hapus yn 'Cynnig Eich Prosiect'



## Dathlu ysbryd cymunedol

# wobrau Gwirfoddoli Sir Fynwy

Mewn partneriaeth â **GAVO**, roedd yr ail MVAs yn fwy nag erioed – croesawyd dros **100** o fynychwyr gan gynnwys arweinwyr allweddol y gymuned, i anrhydeddu a dathlu **76** o enwebiadau a **12** o enillwyr.

## Nawdd cymunedol

# Cynnig Eich Prosiect

Fe wnaeth **19 o brosiectau cymunedol** elwa o'r cyllid hwn, sy'n cyfateb i **£33,000!**

## Nawdd Corfforaethol

Mae gennym ni gyllid corfforaethol o **£5,000** ar gael bob blwyddyn i Gymunedau Sir Fynwy, **mae rhai o'r grwpiau rydym ni wedi eu cefnogi eleni yn cynnwys ...**

**£600**

Tîm pêl-droed merched Ysgol Caldicot

**£500**

Caldicot Musical Theatre

**£250**

Friends of Together Works (Caldicot Pride)

**£1,000**

Digwyddiad PRIDE Y Fenni

**£1,000**

Abergavenny Arts CIC (Gŵyl Celfyddydau Y Fenni)

# Ffyniant

## Mae sicrhau ein bod ni'n tyfu fel busnes ac yn parhau i fod yn gryf yn ariannol yn allweddol.

Mae effaith ganlyniadol costau cynyddol wedi creu heriau i ni gyd ac wedi rhoi pwysau sylweddol ar ein cyllidebau. Er gwaethaf yr heriau hyn, rydym ni'n parhau i flaenoriaethu cefnogaeth ag yn gweithio'n galed gyda chwsmeriaid i gadw ôl-ddyledion rhent yn isel, gan wneud arbedion ar draws y busnes i aros yn gryf yn ariannol.

### Asesiad rheoleiddiol

Rydym ni wedi ymrwymo i gyrraedd y safonau perfformiad uchel a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, gan sicrhau ein bod ni'n darparu cartrefi diogel, o ansawdd uchel a fforddiadwy o ran cost i chi.

Edrychwch ar Hunan-Asesiad Rheoleiddiol MHA 2024/2025 ar ein gwefan, sy'n amlinellu gwelliannau sydd wedi'u hargymell. Fe wnaethom ni gyflawni gradd 'Pasio' gyda'r rheoleiddiwr. Bydd Hunan-Asesiad nesaf MHA ar gael yn Hydref.

### Mynd yn ddigidol

Mae ein trawsnewidiad digidol wedi parhau, gan roi cwsmeriaid wrth wraidd ein rhaglen ddigidol, wrth i ni symud o wasanaeth â llaw i wasanaeth digidol. Dydyn ni ddim eisiau gadael neb ar ôl, felly mae cymorth bob amser ar gael.

Ym 2024 lansiwyd ein gwefan newydd, er mwyn gwasanaethu ein cwsmeriaid yn well ac i arddangos MHA fel cymdeithas tai flaengar flaenllaw, sy'n gyffrous gweithio gyda nhw.

### Gwerth Cymdeithasol – rhoi rhywbeth yn ôl

Bob tro y byddwn ni'n dechrau prosiect adeiladu newydd gyda chontractwr, rydym ni hefyd yn cydweithio i gyflwyno rhywbeth o'r enw gwerth cymdeithasol.

Rydym ni'n gweithio gyda chontractwyr, trigolion a chymunedau sy'n teimlo'r un ffordd i helpu i ddeall beth sydd bwysicaf iddynt ac i nodi prosiectau a allai elwa o ychydig mwy o arian neu gefnogaeth. Dyma ein ffordd o roi yn ôl a sicrhau ein bod ni'n darparu gwerth cymdeithasol ar draws ein holl waith datblygu.



# Astudiaeth Achos

## Rhoi bywyd newydd i'n cartrefi!

**St Mary's Place, Portskewett**

Gyda **33** o gartrefi yn edrych yn wych ar ôl i'r gwaith adnewyddu'r ôl-osod gael ei gwblhau, roedd y gwelyau uchel presennol y tu allan i'r eiddo'n edrych braidd yn drist ac yn flêr, ac angen rhywfaint o fywyd!

Gyda **£2k** o fuddion cymunedol diolch i'r Prif Gontractwr Sureserve, fe wnaethom ail-adeiladu'r gwely uchel ac fe wnaeth ein tîm rheoli asedau dawnus dreulio 'diwrnod gwirfoddoli' MHA gyda rhawiau a ffyrc, yn ddwfn yn y compost yn ailblannu'r gwely.

Dan arweiniad aelod o'r staff oedd wedi bod yn gweithio mewn canolfan arddion cyn hyn ac oedd yn gyfarwydd â lafant a dahlias, llwyddodd tîm i greu arddangosfa y byddai Sioe Flodau Chelsea yn falch ohoni.




# O ble mae ein harian yn dod a sut rydym ni'n ei wario

Mae rhan fwyaf o'r arian a gawn yn dod o'ch rhent, mae'r ffynonellau incwm eraill yn cynnwys arian o werthu cartrefi yr ydym ni'n eu hadeiladu a grantiau gan y Llywodraeth. Mae dadansoddiad llawn i'w weld isod.

**Incwm 2024/2025**

## O ble mae ein harian yn dod:





- Rhenti Derbyniadwy
- Grantiau'r Llywodraeth wedi'u Hamorteiddio
- Incwm Tâl Gwasanaeth
- Incwm Arall
- Incwm Lesddeiliaid
- Incwm ar gyfer Gwasanaethau Cymorth

Cyfanswm **£27.615m**

**Gwariant 2024/2025**

## Ar beth y gwnaethom wario ein harian:




- Cynnal a Chadw Arferol
- Dibrisiant Eiddo Tai
- Costau rheoli
- Atgyweiriadau Mawr
- Costau Tâl Gwasanaeth
- Costau Eraill
- Dyledion Drwg

Cyfanswm **£24.814m**

Oes gennych chi ddiddordeb darllen mwy am weithrediadau ein busnes a phwysigrwydd darparu gwerth am arian? Edrychwch ar ein **Hadolygiad Ariannol** a chyhoeddiadau **Gwerth am Arian** ar ein gwefan.

## Datrys eich cwynion

Os nad ydych chi'n fodlon â'r gwasanaeth rydych chi wedi'i dderbyn, hoffem i chi roi gwybod i ni fel y gallwn ymchwilio a datrys y mater.

Byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i'w gywiro cyn gynted ag y bo modd ac i ddysgu o bob cwyn rydym ni'n ei derbyn, waeth pa mor fawr neu fach ydyw!

Derbyniwyd **20** o gwynion - roedd **6** (30%) wedi eu cadarnhau, **5** (25%) wedi eu cadarnhau'n rhannol a **9** (45%) heb eu cadarnhau

Derbyniwyd **11** cais am iawndal

Cafodd **90%** o hawliadau / iawndal eu hateb o fewn y targed

### Felly beth rydyn ni wedi dysgu ...

Er ein bod ni'n derbyn nifer cymharol fach o gwynion, rydym ni'n cymryd cwynion o ddifrif.

O ganlyniad, rydym ni wedi gwneud nifer o welliannau i rai o'n polisïau a'n gweithdrefnau i helpu i symleiddio'r broses. Defnyddiwyd gwersi a ddysgwyd ynghylch ein gwasanaeth atgyweirio i helpu i siapio adolygiad mwy a fydd yn digwydd yn 2025.

Rydym ni hefyd wedi sefydlu system fonitro ar gyfer cwynion anffurfiol, sy'n golygu y byddwn ni'n gallu nodi tueddiadau'n gynnar a mabwysiadu dull mwy rhagweithiol o ddatrys.

## Gallwch ddod o hyd i fanylion ein gweithdrefn gwyno ar ein gwefan, neu ffoniwch ni.

# Ein Pobl

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant (EDI)

Rydym ni'n angerddol am gofleidio ein gwahaniaethau a'r natur unigryw mae ein hamrywiaeth cyffredin yn eu cynnig, fel y gallwn ni wasanaethu'r cymunedau a'r bobl y byddwn ni'n gweithio drostynt yn y ffordd orau.  Gwyddom nad ydym ni yno eto – ond gwyddom lle rydym ni eisiau bod, wrth i ni barhau â'n taith i sicrhau bod ein diwylliant a'n gwasanaethau yn iawn i bawb.

**Felly beth rydym ni wedi'i wneud ...**

Cafodd ein Grŵp Llywio mewnol ei ailwampio, sef y grŵp sy'n gyfrifol am weithio gyda chi i osod nodau a mesurau clir i helpu i gyflawni newid ystyrlon a pharhaol.

Adolygwyd y asiantaethau cymorth arbenigol yr ydym ni'n eu defnyddio ac fe wnaethom restru Language Line i helpu gyda rhwystrau cyfathrebu.

Fe wnaethom ddechrau gweithio tuag at Addewid Tai Pawb 'Gweithiau Nid Geiriau' i ymladd yn erbyn hiliaeth.

Hyfforddwyd mwy o 'Aseswyr Effaith ar Gydraddoldeb', i wirio ein polisïau a'n penderfyniadau i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal, gan fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethu neu rwystrau posibl.

Rydym ni wedi 'ail-gydbwyso' y cynrychiolaeth rhywedd ar ein Byrddau.

Rydym ni wedi parhau i weithio ar y Cynllun Iaith Gymraeg a fydd yn cael ei ddisodli gan Safonau'r Iaith Llywodraeth Cymru yn Nhachwedd 2025.

Fe wnaethom gerdded gyda balchder yn ystod mis Pride, gan gynrychioli MHA yn nigwyddiadau Pride Y Fenni a Chil-y-coed.

Fe wnaethom gofrestru ar gyfer Addewid HouseProud LHDTC+ a gyflwynwyd gan Stonewall, gan roi ein hymrwymiad i gyfle cyfartal a chefnogaeth i gwsmeriaid LHDTC+.

Fel rhan o Fis Hanes LHDTC+, fe wnaethom gynnal te parti Cydraddoldeb bywiog i'r staff, lle buom yn llenwi ein cwpanau â gwybodaeth, adnoddau a balchder!



# Troi'r sain i fyny ar Lais y Cwsmer

**Mae ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth rydym ni'n ei wneud, felly mae sicrhau bod eich llais CHI yn cael ei glywed yn allweddol i ddarparu'r gwasanaethau rydych chi eu heisiau ac yn eu disgwyl.**

OND rydym ni angen eich cefnogaeth i'n helpu ni ddeall beth rydym ni'n ei wneud yn dda, a lle mae angen i ni weithio'n galetach!

Mae Llais y Gymuned yn cwrdd sawl gwaith y flwyddyn ac maen nhw'n angerddol dros wneud gwahaniaeth. Mae eu profiad a'u gwybodaeth yn cael eu defnyddio'n dda trwy herio a dylanwadu ar sut rydym ni'n cynllunio a darparu ein gwasanaethau, fel y gallwn sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwasanaethau cywir yn y ffordd gywir. Maen nhw'n cynnig cyswllt uniongyrchol hefyd i fwrdd ein Grŵp.

Mewn arolwg boddhad diweddar, roeddem wrth ein bodd i glywed bod 90% o'r trigolion yn hapus gyda MHA yn gyffredinol ac 85% ohonoch chi'n ymddiried ynom ni. Er ein bod ni am wella hyn ymhellach!

Roeddem ni wedi siomi gyda'r gostyngiad bach yn y bodlonrwydd o ran gwrando ar eich barn a gweithredu arno / rhoi cyfle i chi gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ac rydym yn mynd rhagddi i gywiro pethau.

Rydym ni wedi bod yn brysur yn siarad â thrigolion, aelodau'r bwrdd a darparwyr tai eraill i gael darlun cliriach o ble o bosibl y bu i bethau fynd o'i le a sut y gallwn ni wella.

## Symud ymlaen

**Byddwn yn ...**

**Cryfhau Grŵp Llais y Gymuned (CV):** Cyn bo hir byddwn yn dechrau chwilio am lywydd newydd i arwain Llais y Gymuned, a fydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda'n 'Bwrdd' i sicrhau bod eich barn yn cael ei glywed ar y lefel uchaf.

**Gwella Cyfathrebu:** Rydym ni wedi ymrwymo i wella ein hadborth i chi trwy roi diweddariadau rheolaidd am y camau a gymerwyd. Byddwn yn gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd.

**Ffyrdd Mwy Hygyrch i Fynegi Eich Barn:** Rydym ni'n cydnabod nad yw rhai o'r cyfleoedd i gymryd rhan yn gyfleus i bawb. Felly, byddwn yn cyflwyno dulliau mwy hygyrch, bydd gwybodaeth yn dilyn yn fuan!

**Dim ond dechrau deg yw'r camau hyn! Mae eich lleisiau mor bwysig i ni, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau eu bod yn cael eu clywed a'u gweithredu**

Diolch :)

## Cyfarfod ein Bwrdd

Mae ein holl aelodau bwrdd yn dod o bob rhan o'r gymdeithas, nid dim ond o'r sector tai cymdeithasol. Mae hyn yn ein helpu i weld y llun ehangach ac edrych ar bethau o safbwynt gwahanol. Maen nhw'n gosod ein strategaeth gorfforaethol ac yn ein herio i fod y gorau y gallwn ni fod.



Tony **Deakin**
Cadeirydd Grŵp MHA



Dimitri **Batrouni**
Is-gadeirydd Grŵp MHA



Colin **Lewis**
Aelod o Fwrdd y Grŵp, Cadeirydd Pwyllgor Gweithrediadau



John **Miller**
Aelod o Fwrdd y Grŵp ac Is-gadeirydd, Bwrdd Capsel



Cael **Sendell-Price**
Aelod o Fwrdd y Grŵp



Lynda **Campbell**
Aelod o Fwrdd y Grŵp, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Thaliadau



Nicola **Tindale**
Aelod o Fwrdd y Grŵp



Tim **Jackson**
Aelod o Fwrdd y Grŵp



Kalwant **Grewal**
Aelod Pwyllgor Archwilio Annibynnol



Ann **Cornelius**
Aelod o Fwrdd y Grŵp



Julie **Evans**
Aelod o Fwrdd y Grŵp

## Ffarwel a diolch ...

**i'r aelodau sydd wedi gadael Bwrdd MHA eleni**



Alan **Soper**
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, Aelod o Fwrdd y Grŵp ac Aelod o Fwrdd Capsel



Reg **Kilpatrick**
Aelod o Fwrdd y Grŵp



Hannah **Vickers**
Aelod o'r Pwyllgor Datblygu Annibynnol



Mat **Cooling**
Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg Annibynnol

Am fwy o wybodaeth am yr hyn mae pob aelod yn ei gyfrannu i'n bwrdd, edrychwch ar ein gwefan.neu sganio'r cod QR.

# Cyfarfod â'r Uwch Dîm Rheoli

Mae ein Cyfarwyddwyr yn ein harwain ac yn ein ysbrydoli trwy sbarduno ein gweledigaeth a strategaeth y cwmni gyda llawer o frwdfrydedd a llawer o gefnogaeth!



John **Keegan**
Prif Weithredwr (ymddiswyddodd 31/08/2025)



Gwyndaf **Tobias**
Prif Weithredwr Dros Dro (CEO)



Becky **Oliver**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo Cynorthwyol (Gwasanaethau Adeiladu ac Asedau)



Chris **Kinsey**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo Cynorthwyol (Datblygu a Capsel



Michele **Morgan**
Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau



Julie **Stone**
Cyfarwyddwr Adnoddau Dros Dro



Karen **Tarbox**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo (ymddiswyddodd 31/05/2024)

## Codi arian ar gyfer elusennau

**Yn MHA rydym ni'n grŵp elusengar, yn ystod 2024 fe wnaethom godi ...**

**£816**

i Achub y Plant trwy ein diwrnod siwmperi Nadolig a raffl

**£268**

i Hosbis y Cymoedd yn ein cystadleuaeth pobi cacen Gymreig ar Ddydd Gŵyl Dewi

**£143**

ar gyfer Longtown Mountain o gyfraniadau a wnaed o gronfa arolwg staff

## Cysylltu gyda ni

**Canolfan Galwadau Cwsmer ...**



Mae **91.49%**

o'r holl alwadau yn cael eu hateb o fewn 30 eiliad

Mae **84.85%**

o alwadau yn cael eu datrys ar y pwynt cyswllt cyntaf

Roedd **94.6%**

ohonoch chi'n fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsoch chi

**Mae wedi bod yn flwyddyn sgwrsio, rydym ni wedi cael ...**

**14,866**

o e-byst

**13,588**

rhyngweithiadau digidol i gyd

**1,194**

o sgyrsiau byw

Mae **35.8%**

o'r holl ryngweithio yn ddigidol

## Bod yn Gymdeithasol

Mae MHA yn weithgar ar hyn o bryd ar draws 4 platfform. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am hyn rydym ni'n ei wneud fel busnes a'r hyn sy'n digwydd yn eich cymuned, Dilynwch ni.

**Ble gallwch ddod o hyd i ni ...**

| Facebook | Instagram | Facebook | LinkedIn | TikTok |
|---|---|---|---|---|
| **3,133** | **1,047** | **1,339** | **3,812** | **1,739** |
| o Ddilynwyr (MHA) | o Ddilynwyr | o Ddilynwyr (Community Buzz) | o Ddilynwyr | o Ddilynwyr |

## Ar gyfer beth y gwnaethom ni ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn 2024 ...

- Fe wnaethom lansio ein ap tenantiaid.
- Fe wnaethom ni gyhoeddi lansiad ein gwefan newydd.
- Fe wnaethom ni hysbysebu ein teithiau cerdded a siarad
- Fe wnaethom hi hyrwyddo swyddi gwag a lleoedd gwag ar y bwrdd
- Fe wnaethom ni hyrwyddo lansio Masterchef, Cerdyn Anrheg a Cynnig Eich Prosiect
- Fe wnaethom ni greu ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau cymorth gan gynnwys cymorth ariannol ac UC.
- Fe wnaethom ni rhannu'r newyddion adeiladu diweddaraf ar ddatblygiadau newydd
- Fe wnaethom eich hysbysu am argaeledd cartrefi newydd a dyddiadau cynnig.









## Helpu i sicrhau bod ein cymunedau mewn trefn!



# Ein Planed

Rydym ni wedi ymrwymo i leihau'r effaith rydym ni'n ei chael ar yr hinsawdd. Mae cyflawni cenadaethau carbon sero net yn flaenoriaeth allweddol i MHA, gan sicrhau bod gennym ni'r mesurau cywir i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

## Cefnogi cymunedau mwy gwyrdd

**Cefnogwyd 10 prosiect amgylchedd cymunedol, drwy'n pot cyllid cymunedol 'Cynnig Eich Prosiect' a gwaith partneriaeth gan gynnwys:**

### Gardd gymunedol Cil-y-coed

Cymerodd staff MHA ddiwrnod gwirfoddol ac adeiladu llwybr newydd.

### Gorsafoedd casglu sbwriel

Wedi'i drefnu ar gyfer cymunedau yng Ngil-y-coed i ddarparu sesiynau casglu sbwriel i denantiaid a'r gymuned ehangach.

### Gardd TogetherWorks

Offer awyr agored wedi'i ariannu i gefnogi eu digwyddiad agoriadol a diwrnod gwirfoddoli staff yn cael ei ddefnyddio i blannu blodau ac adeiladu dodrefn i'r ardd.

### Ysgol Brenin Harri V111

Wedi ariannu gardd gymunedol newydd.

### Ysgol Parc Castell

Wedi creu gardd synhwyraidd.

### Albion House

Wedi ariannu tŷ gwydr ar gyfer gofod gardd i'w rannu.

### Our Lady & St Michaels

Wedi darparu polidwnnel ar gyfer gardd yr ysgol.

### Cwtch Angels Nadolig - Rhoi teganau wedi'u defnyddio

Arbed yr amgylchedd a phunnoedd yn y pocedi.

**Saving pounds and our planet in our communities:**

**28.3**

tunnell o wastraff bwyd wedi cael ei arbed rhag tirlenwi drwy brosiectau oergell gymunedol wedi'i lleoli yn ein hybiau

**2,523**

o gynhyrchion mislif cynaliadwy wedi'u dosbarthu trwy hybiau cymunedol


**1**

casgliad sbwriel wedi'i gwblhau gyda **10** gwirfoddolwr

Cwrt Severn, Cil-y-coed wedi'i drawsnewid ac yn ynni-effeithlon

***"Rwyf wedi byw yma ers bron i 6 blynedd a gallaf ddweud ei fod yn llawer gwell nag yr oedd yn edrych o'r blaen. Y budd mwyaf i bob preswylydd yw arbed arian ar ein gwres a thrydan gyda'r paneli solar. Mewn gwirionedd, mis yma sylwais fod y swm arian rydw i wedi bod yn ei roi ar wres para ychydig mwy."***

Alan, Cwrt Severn



## Wedi ymrwymo i adeiladu tai cynaliadwy newydd

Bydd pob un o'n cartrefi newydd a ddyluniwyd ac a adeiladwyd gennym yn cyflawni sgôr effeithlonrwydd ynni 'EPC' A gan ddefnyddio datrysiadau gwresogi dŵr a gofod carbon isel a solar PV.

Byddwn hefyd yn ystyried defnyddio dulliau modern o adeiladu, lle bo hynny'n briodol, a datblygiadau arloesol newydd i helpu i wella diogelwch a chyflymder cyflawni. Rydym wedi ymrwymo i leihau gwastraff adeiladu a gwella ansawdd ein cartrefi hyd yn oed ymhellach.

Fe wnaethom gynyddu’r defnydd o gadwyni cyflenwi lleol ble bynnag y bo'n bosibl, gan helpu i leihau ein hôl troed carbon adeiladu.

## Gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi presennol

Rydym ni’n gweithio'n galed i wella cynaliadwyedd ein tai hŷn, er mwyn eu gwneud yn fwy cynnes ac yn fwy fforddiadwy i'w cynnal.

Bydd hyn fel arfer yn cynnwys amrywiaeth o waith i wella ei effeithlonrwydd ynni, gan ei wneud yn haws ei gynhesu, a gallu cadw'r gwres hwnnw am amser hirach. Mae gwaith gwelliannu fel arfer yn cynnwys inswleiddio, ffenestri a drysau effeithlon iawn, awyru, pympiau gwres a phaneli solar.

Rydym ni’n derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o'r enw cyllid Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i fynd tuag at dalu am y gwaith hwn.

Cyfanswm gwariant cyfunol ar waith ôl-osod / gwella yn 2024/25: **£2,390,000**

**Felly beth rydym ni wedi'i osod:**

**82** o ffenestri

**94** o ddrysau

**174** o foeleri

**116** o Foeleri gwresogi wedi’u huwchraddio

**82** o doeau

**110** o baneli solar

**45** o ddeunydd inswleiddo waliau allanol

**109** o geginau

**37** o ystafelloedd ymolchi

Mae gwelliannau wedi lleihau cyfanswm allyriadau blynyddol $CO_2$ o dros **135** o dunelli y flwyddyn, sy'n gyfwerth ag allyriadau $CO_2$ cyfartalog tua **70** o'n cartrefi!

## Cipolwg ar gyllid Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

Rydym ni wedi derbyn **£3.96m** o arian Ôl-osod er mwyn Optimeiddio gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi ein galluogi ni i wella effeithlonrwydd ynni rhai o'n tai:

| Blwyddyn ariannol | Prosiectau ORP | Cyllid MHA | Grantiau Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|---|
| 23/24 | Cwrt Severn / Elm Avenue | £374,000.00 | £728,000.00 |
| 24/25 | Newland Way / St Mary's Place | £474,000.00 | £850,000.00 |
| 24/25 | Middle Way (cam 2) / The Albion / 72 gosodiad solar PV | £283,000.00 | £1,210,000.00 |
| 25/26 | Middle Way (phase 2) / The Albion / 72 solar PV installs | £391,293.37 | £1,173,880.11 |
| | | **£1,522,293.37** | **£3,961,880.11** |

Rydym ni'n cymryd y cyfrifoldeb i leihau ein hallyriadau carbon ac i ofalu am ein hamgylchedd ehangach, gan gynnwys bywyd gwyllt, o ddifrif.

## Ein targedau ailgylchu

Rydym ni'n cydymffurfio 100% â Rheoliadau Gwastraff Cymru ar wahanu ac ailgylchu gwastraff.

Fe wnaethom gyflawni Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd gan ddangos ein rheolaeth amgylcheddol effeithiol.

**Bydd ein cynllun ecololeg 5 mlynedd yn cael ei adnewyddu eleni, dyma rai o'r pethau yr ydym ni wedi eu cyflawni yn ein swyddfeydd:**

- Wedi gosod cartrefi adar
- Wedi gosod blychau ystlumod a blychau llygod
- Wedi creu ardal blodau gwyllt ar gyfer gwenyn
- Wedi creu pwll i helpu sefydlu eco-system
- Wedi sefydlu cynaeafu dŵr glaw er mwyn lleihau defnydd o ddŵr glaw yn sylweddo

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD • GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD



# Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi!

**Rydym ni am allu darparu'r ymateb rydych chi ei angen gan MHA, pryd bynnag ac mewn unrhyw ffordd y byddwch chi'n cysylltu â ni.**

Rydym ni'n gwerthfawrogi eich adborth ac eisiau gweithio gyda chi i wneud gwelliannau i'n gwasanaethau. Rydym ni'n gwybod nad ydym bob amser yn gwneud pethau'n iawn, ac rydym wedi ymrwymo i ddysgu o'r pethau mae'n rhaid i ni wella ac i wneud pethau'n well i bawb.

**Os hoffech gysylltu â ni a rhannu eich meddyliau a'ch barn am ein gwasanaethau hoffem glywed gennych chi.**

**Gallwch wneud hyn mewn llawer o ffyrdd gan gynnwys:**

**Yn ysgrifenedig:** Tai Sir Fynwy, Tŷ Nant y Pia,
Parc Technoleg Mamhilad, Mamhilad, NP4 0JJ

**Ar e-bost:** customerservices@monmouthshirehousing.co.uk

**Drwy ffonio**: 0345 677 2277

**Er ein gwefan:** www.monmouthshirehousing.co.uk

**Ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol swyddogol:**

*Byddwch yn rhan o'n helpu ni i wneud newidiadau er gwell*

# Ydych chi wedi lawrlwytho Ap MyMHA eisoes?




## Mae ap MyMHA wedi troi yn 1 oed yn ystod yr haf eleni

Cofiwch y gallwch chi wirio eich cyfrif, talu eich rhent, rhoi gwybod am atgyweiriad neu ymddygiad gwrthgymdeithasol – unrhyw amser o'r dydd, pan fo'n gyfleus i chi.

Sganio ar gyfer Android

Sganio ar gyfer Apple

MHA
Monmouthshire Housing
Tai Sir Fynwy